Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

Adroddiad ar oblygiadau ariannol y Mesur Arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru)

Mehefin 2009

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol **www.cynulliadcymru.org**

I gael rhagor o gopïau caled o'r ddogfen hon cysylltwch â:
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8617
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Fin.Comm@wales.gsi.gov.uk

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

Adroddiad ar oblygiadau ariannol y Mesur Arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru)

Mehefin 2009

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR CYLLID

Adroddiad ar oblygiadau ariannol y Mesur Arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru)

Cefndir:

1. Noda Rheol Sefydlog 14.2:

Caiff y Pwyllgor [Cyllid] hefyd ystyried y canlynol ac, os yw'n gweld yn dda, gyflwyno adroddiadau arnynt:

(i) gwybodaeth ariannol yn y memoranda esboniadol sy'n cyd-fynd â Mesurau Cynulliad arfaethedig;

Y Mesur Arfaethedig:

2. Cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y Mesur Arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru) i'r Cynulliad ar 27 Ebrill 2009.

3. Diben y Mesur hwn yw ehangu hawliau plant drwy roi hawliau iddynt wneud apeliadau anghenion addysgol arbennig a hawliadau mewn cysylltiad â gwahaniaethu ar sail anabledd i'r Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig yng Nghymru (y Tribiwnlys). Bydd yn diwygio'r gyfraith sy'n rhoi'r hawl i rieni wneud apeliadau a hawliadau i'r Tribiwnlys, fel y nodir yn Rhan 4 o Ddeddf Addysg 1996 a rhan 4 o'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995.

4. Yn ei hanfod bydd y Mesur yn:

• darparu cyfnod peilot deddfwriaethol cychwynnol pan fydd plant mewn ardaloedd awdurdodau lleol penodol yn gallu gwneud apeliadau a hawliadau i'r Tribiwnlys a hefyd bydd yn galluogi'r Tribiwnlys i gofrestru a gwrando ar apeliadau/hawliadau;

• yna rhoi i blant ar draws Cymru'r hawl i apelio a gwneud hawliad i'r Tribiwnlys;

• ei gwneud yn ofynnol bod Awdurdodau Addysg Lleol yn rhoi gwybod i blant am eu hawliau i apelio;

• gosod dyletswydd ar awdurdodau addysg lleol i wneud trefniadau ar gyfer Gwasanaethau Partneriaeth a Datrys Anghytundebau ac i roi gwybod i blant am hawliau mynediad at y gwasanaethau hynny;

• gosod dyletswydd newydd ar awdurdodau addysg lleol i ddarparu mynediad at wasanaethau eiriolaeth annibynnol a all wrando ar safbwyntiau a phryderon plant a lleisio'r safbwyntiau a'r pryderon hynny. Bydd disgwyl i eiriolwyr allu cynorthwyo plant mewn prosesau datrys, wrth baratoi achosion apêl/hawliadau a'u cynorthwyo neu'u cynrychioli mewn gwrandawiadau;

• tynnu swyddogaethau Gweinidog y Goron a gofynion cydsynio mewn cysylltiad â rheoliadau sy'n llywodraethu awdurdodaeth gwahaniaethu ar sail anabledd y Tribiwnlys;

• rhoi'r grym i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ar gyfer llywodraethu awdurdodaeth Gwahaniaethu ar sail Anabledd y Tribiwnlys; a

• gosod ar Weinidogion Cymru y cyfrifoldeb am ystyried cwynion ynghylch peidio â gweithredu gorchmynion y Tribiwnlys Gwahaniaethu ar sail Anabledd.

Cyflwyniadau a thystiolaeth

5. Bu'r Pwyllgor Cyllid yn trafod y Mesur arfaethedig, y Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, a phapur pellach gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn ei gyfarfod ar 11 Mehefin 2009: FIN(3) 10-09 (p3). Clywodd dystiolaeth lafar gan y Gweinidog a chan swyddogion:

- Jane Hutt, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
- Huw Maguire, Rheolwr Polisi, Mesur Addysg (Cymru)
- Chris Burdett, Pennaeth yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr

6. Yr oedd y Pwyllgor hefyd yn ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd i Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3 fel rhan o'i waith ymgynghori ar y Mesur arfaethedig hwn.

Trafodaeth

7. Mae'r Mesur arfaethedig yn cyflawni ei amcanion mewn dau gam. Bydd Cyfnod 1 yn cael ei weithredu fel cynllun peilot a gwerthuso a bydd yn canfod opsiynau ac yn ymchwilio iddynt. Bydd y Mesur yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i nodi nifer y peilotau a pha mor hir maent yn parhau. Yn dilyn hyn bydd Cyfnod 2 a dyma roi ar waith cyflawn y Mesur fesul cam, pan fydd canlyniadau ac argymhellion y cynllun peilot a gwerthuso yn wybodus. Oherwydd bod Cyfnod 2 yn dibynnu'n llwyr ar ganlyniad Cyfnod 1 nid yw'n bosibl amcangyfrif costau'r rhoi ar waith cyflawn ac nid yw'r Gweinidog wedi ceisio gwneud hyn yn y Memorandwm Esboniadol. Dywed y Memorandwm Esboniadol (8.35) y gallai cyfnod peilot dros 2 flynedd, ac yna cyfnod o werthuso, gael ei wireddu ar gost rhaglen ychwanegol o £130,000 - £150,000.

8. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, mae'r Gweinidog yn nodi ffigurau ar gyfer costau cynnal blynyddol tribiwnlysoedd yn y tair blynedd ddiwethaf sef rhwng £340,000 a £402,000. Roedd y ffigurau hyn yn gymharol sefydlog gan

fod y nifer o apeliadau/hawliadau'n amrywio o 94 i 162, sef yr hyn y byddai rhywun yn ei ddisgwyl pan fo cyfran sylweddol o'r cyfanswm yn cynnwys costau sefydlog. Roedd y Gweinidog wedi dod i'r casgliad bod y ffigurau hyn wedi dangos bod rhywfaint o hyblygrwydd yn bodoli yn y system ac nid oedd hi'n rhagweld y byddai'r costau hyn yn cynyddu rhyw lawer ar gyfer cyfnod y peilot.

9. Yn yr ymgynghoriad, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y byddai costau uniongyrchol ychwanegol mewn cyllidebau tribiwnlysoedd oherwydd yr angen i ddarparu gwasanaeth ad litem. Dywedodd y Gweinidog nad oedd hi'n derbyn hyn oherwydd bod y tribiwnlys wedi ymrwymo i anffurfioldeb drwy ei reoliadau ac ni fyddai cynnwys gwasanaeth trydydd parti'n briodol yn hyn o beth. Credai hi mai rôl briodol y tribiwnlys oedd pwyso a mesur yr holl dystiolaeth a dod i benderfyniad ei hunan.[1]

10. Mynegodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd bryderon y byddai'r Mesur yn dwyn dyletswyddau ychwanegol ac o bosibl gostau sylweddol ar awdurdodau lleol a oedd eisoes yn wynebu gorfod gostwng niferoedd staff. Pwysleisiodd y Gweinidog bod ymgynghori helaeth wedi digwydd gydag awdurdodau lleol a'u bod hwythau hefyd yn rhan o'r grŵp peilot, gweithredu a chynllunio.[2] Nododd nad oedd hi'n credu y byddai costau o'r fath yn cynyddu. Nid oedd hi'n gweld y Mesur arfaethedig fel rhywbeth a fyddai'n arwain at lawer mwy o apeliadau gan blant a nododd, mewn rhai awdurdodau, bod newid systemau wedi gostwng nifer yr apeliadau. [3]

11. Yn yr un modd, dywedodd y Gweinidog ei bod hi wedi gweithio'n agos gyda'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i ganfod yr effaith y gallai'r hawliau newydd eu cael ar eu hadnoddau. Dywedodd bod derbyn, os oedd cynnydd bach yn y nifer o apeliadau cynyddol o'r tribiwnlys sy'n deillio gan apelyddion sy'n blant, na fyddai hyn yn ychwanegu unrhyw faich arwyddocaol arnynt. [4]

[1] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyllid, 11 Mehefin 2009, paragraff 12
[2] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyllid, 11 Mehefin 2009, paragraff 51
[3] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyllid, 11 Mehefin 2009, paragraff 56
[4] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyllid, 11 Mehefin 2009, paragraff 58

12. Ar y sail honno, nododd yr Aelodau bod costau'r peilot a chostau tribiwnlysoedd yn ystod y cyfnod peilot yn ymddangos eu bod wedi'u hasesu'n rhesymol ac nad ydynt yn debygol o beri unrhyw broblemau sylweddol o ran ariannu.

13. Nododd yr Aelodau, mewn cysylltiad â Chyfnod 2, y byddai cwmpas y Mesur yn darparu cyfle i Weinidog wneud newidiadau sylfaenol trwy Reoliadau ar ôl y cyfnod peilot. O gofio maint y grym hwn, mae rhywfaint o anhawster i archwilio goblygiadau ariannol y newidiadau hyn oherwydd nid ydym, yn syml, yn gwybod beth a fyddant. Nododd y Pwyllgor bod hwn yn golygu bod rhan sylweddol o'r pwerau a grëwyd gan y Mesur arfaethedig nid yn unig heb eu costio ond hefyd heb eu henwi.

14. Roedd yr Aelodau'n bryderus ynglŷn â hyn oherwydd, fel Pwyllgor Cyllid, gallent graffu ar ddim ond rhan fach o oblygiadau ariannol y ddeddfwriaeth arfaethedig. I gefnogi'i dull gweithredu, dywedodd y Gweinidog fod gan y Mesur arfaethedig ddiben eglur iawn a bwriad pendant, sef ehangu'r hawliau apêl ar gyfer plant ar gyfer y tribiwnlys anghenion addysgol arbennig. O ganlyniad, byddai unrhyw newidiadau a ddeuai i'r amlwg trwy reoliadau yn ymwneud yn unig ag ehangu swyddogaeth y Tribiwnlys yn benodol iawn. Ni fyddai'r Mesur arfaethedig yn agor meysydd polisi eraill. Dywedodd y Gweinidog hefyd y byddai asesiad rheolaethol ac asesiad ariannol cyflawn yn cefnogi unrhyw reoliadau.[5] Ychwanegodd y byddai hi'n sicrhau bod gwaith craffu yn digwydd o dan y broses gadarnhaol os oedd unrhyw newidiadau o'r fath i gael eu hystyried o ganlyniad i'r cyfnod peilot.

15. Cydnabu'r Aelodau, pryd bynnag y bo'r Cynulliad yn ystyried Mesur arfaethedig, ni allai ragweld pa bolisïau a allai gael eu gweithredu yn y tymor canolig ac yn y tymor hir, na chan Lywodraeth arall, gan ddefnyddio darn o ddeddfwriaeth benodol. Roedd yr un peth yn wir am unrhyw lywodraeth yn unrhyw fan ac felly roedd yn bwysig bod yn ofalus ynglŷn â chwmpas darn o ddeddfwriaeth. [6]

[5] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyllid, 11 Mehefin 2009, paragraff 45 a 47
[6] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyllid, 11 Mehefin 2009, paragraff 45

Casgliad

16. Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi ystyried y Mesur Arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru). Mae'n nodi bod costau Cyfnod 1 y Mesur yn gymharol fach ac nad ydynt yn debygol o beri unrhyw drafferthion mewn perthynas â'u hariannu.

17. Mae'r Pwyllgor Cyllid, fodd bynnag, yn bryderus bod y Mesur arfaethedig yn cymryd pwerau sylweddol yn gynnar ar gyfer datblygu Cyfnod 2 ac ar bwynt yn y prosiect lle nad yw'n bosibl eu henwi, heb sôn am eu costio. Mae'n nodi sicrhad y Gweinidog y byddai asesiad rheolaethol ac asesiad ariannol cyflawn yn cael eu gwneud i gefnogi unrhyw reoliadau sy'n ofynnol i weithredu Cyfnod 2 ac y byddent yn cael eu cymeradwyo fel rhan o'r broses gadarnhaol. Er ein bod yn sylweddoli nad yw hyn yn sefyllfa ddelfrydol o bell ffordd mae'r Pwyllgor yn casglu serch hynny nad oes unrhyw wrthwynebiad ar sail ariannol i fynd ymlaen â'r Mesur arfaethedig ar gyfer y diben y'i bwriadwyd ar hyn o bryd. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn argymell bod craffu ariannol pellach ar unrhyw ddatblygiadau pellach sy'n deillio o'r Mesur hwn pan ddigwydd hynny.

Angela Burns
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyllid